Young Peacemaker Awards 2024

Do you know a young person who has made a difference in your school or community or who has inspired others?

The Welsh Centre for International Affairs (WCIA) and **Academi Heddwch Cymru**are working with the Llangollen International Musical Eisteddfod to celebrate children and young people who have contributed to peace, sustainability and equality in their school, youth group, local community or in the wider world.

Together we will host our 8th annual **Young Peacemakers Awards Ceremony** at the Llangollen Eisteddfod on **Friday 5th July 2024 at 12pm** where young people will receive a certificate and an award. Individual young people or groups can enter under the following categories or you can also choose to submit a nomination!

Young Community Peacebuilder:
Are you a bridge-builder in your local or global community? Do you or have you actively worked towards equity, justice, and peace? This award recognises young people who inspire others through their actions. Whether you advocate for change, at home or internationally, your efforts to foster understanding and create a more peaceful community won't go unnoticed. Share your story and inspire others to become changemakers too!

Young Peace Writer(s) of the Year:
Do you have a powerful voice on peace, equity, and sustainability? Unleash your creativity in this category! Submit original writing – poetry, stories, blog posts, even tweets – that explore these themes in a local or global context. Whether you paint vivid pictures with words or spark critical thinking with clever tweets, let your writing be a tool for positive change.
There are separate categories for primary and secondary students, so everyone has a chance to shine!

Young Peace Artist(s) of the Year:
Express your vision for a peaceful and sustainable world through art! This category welcomes diverse forms of artistic expression, from paintings and sculptures to digital animations and thought-provoking performances. Use your creativity to explore themes of peace individually or as part of a group. Whether you address contemporary issues or offer hopeful visions, let your art inspire and spark conversations.
There are separate categories for primary and secondary students to encourage participation across ages.

Young Climate Action Hero:
Are you passionate about protecting our planet? This award celebrates young people who take action against climate change and promote environmental sustainability. Do you raise awareness through creative campaigns? Develop innovative solutions? Share your knowledge and inspire others to join the fight for climate justice! Your proactive approach and dedication to a greener future could earn you this recognition.

Young Mental Health Champion:

Do you believe mental well-being is crucial for a peaceful world? This award shines a light on young people who champion mental health awareness and support. Have you launched initiatives to destigmatise mental health struggles in your community, organised peer support groups or raised awareness about resources available? Have you advocated for accessible mental health services? If you are a champion for mental well-being and its role in creating a peaceful world, share your story and raise awareness.

Young Peace Heritage
This award recognises young people (individuals or groups) who demonstrate commitment to:

- Preserving and learning from the past: This could involve research, documentation, and interpretation of historical peace movements, figures, or events such as the Women's Peace Petition and exploring their significance for today.
- Educating others about the importance of peace heritage: This could involve creative projects, workshops, public talks, or online initiatives.
- Promoting understanding and reconciliation: This could involve facilitating dialogue between different groups, creating memorials, or engaging in community peacebuilding projects inspired by historical examples.

Gwobrau Heddychwyr Ifanc 2024

Ydych chi'n gwybod am berson ifanc sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eich ysgol neu'ch cymuned chi neu sydd wedi ysbrydoli eraill?

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA), ac **Academi Heddwch Cymru** yn gweithio gydag Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen i ddathlu plant a phobl ifanc sydd wedi cyfrannu at heddwch, cynaliadwyedd a chydraddoldeb yn eu hysgol, grŵp ieuenctid, cymuned leol neu yn y byd ehangach.

Rydym yn cydweithio i gynnal ein 8fed **Seremoni Wobrwyo Heddychwyr Ifanc** flynyddol yn Eisteddfod Llangollen ar **ddydd Gwener 5 Gorffennaf 2024 am 12pm** lle bydd pobl ifanc yn derbyn tystysgrif a gwobr. Gall pobl ifanc unigol neu grwpiau gyflwyno ceisiadau o dan y categorïau canlynol, neu gallwch ddewis i enwebu rhywun hefyd!

Adeiladwr Heddwch Cymunedol Ifanc:
Ydych chi'n adeiladwr heddwch yn eich cymuned leol neu fyd-eang? Ydych chi'n gweithio tuag at gyfiawnder, tegwch a heddwch, neu ydych chi wedi gweithio tuag at hyn yn y gorffennol? Mae'r wobr hon yn cydnabod pobl ifanc sy'n ysbrydoli eraill trwy eu gweithredoedd. Boed yn eirioli dros newid, gartref neu'n rhyngwladol, ni fydd eich ymdrechion i feithrin dealltwriaeth a chreu cymuned fwy heddychlon yn cael ei hanwybyddu. Rhannwch eich stori, ac ysbrydoli eraill i ddod yn ysgogwyr newid hefyd!

Awdur/Awduron Heddwch Ifanc y Flwyddyn:
Oes gennych chi lais pwerus ar heddwch, tegwch a chynaliadwyedd? Rhyddhewch eich creadigrwydd yn y categori hwn! Gallwch gyflwyno ysgrifennu gwreiddiol – barddoniaeth, straeon, negeseuon blog, hyd yn oed negeseuon trydar – sy'n archwilio'r themâu hyn mewn cyd-destun lleol neu fyd-eang. P'un a ydych chi'n paentio lluniau byw gyda geiriau neu'n tanio meddwl beirniadol gyda negeseuon trydar clyfar, gadewch i'ch ysgrifennu weithredu fel offeryn ar gyfer newid cadarnhaol.
Mae categorïau ar wahân ar gyfer myfyrwyr cynradd ac uwchradd, felly mae gan bawb gyfle i ddisgleirio!

Artist/Artistiaid Heddwch Ifanc y Flwyddyn:
Mynegwch eich gweledigaeth ar gyfer byd heddychlon a chynaliadwy trwy gelf! Mae'r categori hwn yn croesawu ffurfiau amrywiol o fynegiant artistig, o baentiadau a cherfluniau i animeiddiadau digidol a pherfformiadau sy'n ysgogi'r meddwl. Defnyddiwch eich creadigrwydd i archwilio themâu heddwch yn unigol neu fel rhan o grŵp. P'un a ydych chi'n mynd i'r afael â materion cyfoes neu'n cynnig gweledigaethau gobeithiol, gadewch i'ch celf ysbrydoli a sbarduno sgyrsiau.
Mae categorïau ar wahân ar gyfer myfyrwyr cynradd ac uwchradd, i annog cyfranogiad ar draws oedrannau.

Arwr Gweithredu Hinsawdd Ifanc:
Ydych chi'n angerddol am amddiffyn ein planed? Mae'r wobr hon yn dathlu pobl ifanc sy'n gweithredu yn erbyn newid hinsawdd ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Ydych chi'n codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd creadigol? Yn datblygu atebion arloesol? Rhannwch eich gwybodaeth ac ysbrydoli eraill i ymuno â'r frwydr dros gyfiawnder hinsawdd! Gallai eich dull rhagweithiol a'ch ymroddiad i greu dyfodol mwy gwyrdd ennill y gydnabyddiaeth hon i chi.

Hyrwyddwr Iechyd Meddwl Ifanc:
Ydych chi'n credu bod lles meddyliol yn hanfodol i fyd heddychlon? Mae'r wobr hon yn taflu goleuni ar bobl ifanc sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ac sy'n cefnogi iechyd meddwl. Ydych chi wedi lansio mentrau i ddadstigmateiddio brwydrau iechyd meddwl yn eich cymuned, trefnu grwpiau cymorth gan gymheiriaid, neu godi ymwybyddiaeth am yr adnoddau sydd ar gael? Ydych chi wedi eirioli dros

wasanaethau iechyd meddwl hygyrch? Os ydych chi'n hyrwyddwr lles meddyliol a'i rôl mewn creu byd heddychlon, rhannwch eich stori a chodi ymwybyddiaeth.

Treftadaeth Heddwch - Pobl Ifanc
Mae'r wobr hon yn cydnabod pobl ifanc (unigolion neu grwpiau) sy'n dangos ymrwymiad i:

- Ddiogelu a dysgu o'r gorffennol: Gallai hyn gynnwys ymchwilio, dogfennu a dehongli mudiadau, ffigurau neu ddigwyddiadau heddwch hanesyddol fel Deiseb Heddwch y Menywod, ac archwilio eu harwyddocâd ar gyfer heddiw.
- Addysgu eraill am bwysigrwydd treftadaeth heddwch: Gallai hyn gynnwys prosiectau creadigol, gweithdai, sgyrsiau cyhoeddus, neu fentrau ar-lein.
- Hyrwyddo dealltwriaeth a chymodi: Gallai hyn olygu hwyluso trafodaeth rhwng gwahanol grwpiau, creu cofebion neu gymryd rhan mewn prosiectau adeiladu heddwch cymunedol wedi'u hysbrydoli gan enghreifftiau hanesyddol.